# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**2013 dccc 3**

## RHAN 2

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU A'I PHERTHYNAS Â'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

## PENNOD 2

Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC

*Incwm a gwariant*

### 20 Gwariant

(1) Am bob blwyddyn ariannol rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wneud y canlynol ar y cyd—

- (a) darparu amcangyfrif o incwm a gwariant SAC, a
- (b) gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid i bob amcangyfrif ymdrin (ymhlith pethau eraill) â'r adnoddau sy'n ofynnol at ddibenion adran 21 ( adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol).

(3) Rhaid i bob amcangyfrif gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymdrin â hi.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw newid i'r amcangyfrif y mae'n ei ystyried yn briodol (yn ddarostyngedig i is-adran (5)).

(5) Ni chaniateir gwneud newid o dan is-adran (4) heb—

- (a) ymgynghori â SAC a'r Archwilydd Cyffredinol, a
- (b) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y naill neu'r llall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** A. 20 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(k)**

**I3** A. 20 mewn grym ar 1.4.2014 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2013/1466, rheoliad. 3(1)

## 21 Darparu adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

(1) Rhaid i SAC ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

(2) Yn benodol, mae SAC yn gyfrifol am—

(a) cyflogi staff i gynorthwyo arfer y swyddogaethau hynny;

(b) sicrhau gwasanaethau gan unrhyw berson at ddibenion y swyddogaethau hynny;

(c) dal eiddo at ddibenion y swyddogaethau hynny;

(d) dal dogfennau neu wybodaeth a gaffaelwyd neu a gynhyrchwyd yn ystod arfer y swyddogaethau, neu fel arall at ddibenion y swyddogaethau hynny (gweler paragraff 4(2) o Atodlen 2);

(e) cadw cofnodion mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I5** A. 21 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

## 22 Benthyg

Caiff SAC fenthyg symiau mewn sterling (ar ffurf gorddrafft neu fel arall) i'w cymhwyso at y diben o gyfarfod gorwariant dros dro dros symiau sydd ar gael i'w gyfarfod fel arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 22 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I7** A. 22 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Incwm a gwariant.